
# Hystings ym Mharadwys



**Hystings ym Mharadwys: Islwyn Ffowc Elis ac Is-etholiad Maldwyn 1962.**
**Darlithydd  Robin Chapman.**

**Pabell y Cymdeithasau 2      3.30yp Dydd Mercher 5 Awst 2015**
**Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau**
**Sleids i gyd-fynd â'r ddarlith**

# Clement Davies, 1884-1962

# Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*, 13 Chwefror 1962

Mae'r iaith yn bwysicach na hunan-lywodraeth. Yn fy marn i, pe ceid unrhyw fath o hunan-lywodraeth i Gymru cyn arddel ac arfer yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yn holl weinyddiad yr awdurdodau lleol a gwladol yn y rhanbarthau Cymraeg o'n gwlad, ni cheid mohoni'n iaith swyddogol o gwbl, a byddai tranc yr iaith yn gynt nag y bydd ei thranc hi dan Lywodraeth Loegr.

# Saunders Lewis, *Y Faner*, 22 Mawrth 1962

Malltod yw'r mudiadau Cymreig a'u cynadleddau a'u penderfyniadau ... Gall canghennau Plaid Cymru yn yr ardaloedd Cymraeg roi cychwyn i'r chwyldro yr wythnos nesaf. Y cwbl sy'n rhaid wrtho yw ysbryd a chalon chwyldro. A oes yn aros rywbeth o ysbryd chwyldro ym Mhlaid Cymru? Os nad oes: diflanned.

# Islwyn Ffowc at Tecwyn Lloyd, 6 Hydref 1956

Mae’n anhraethol braf cefnu ar y bagad gofalon a’r Gyfundeboliaeth gyson a straen ddyddiol gwrando ar fân gwynion a mympwyon pobl y byddai crefydd dotem yn golygu mwy iddynt nag a olygodd yr Efengyl Fawr erioed. Mae’n fendigedig yma’n wir, a theimlaf eisoes fod egnïon newydd yn cael eu meirioli ynof wedi heth hir, yn barod at waith.

# J. Arthur Thomas at J. E. Jones,
# 27 Mawrth 1962

Ynglŷn â'r ymgeisydd, gwelaf fod dau ddosbarth: y rhai sydd wedi'u mabwysiadu'n barod gan etholaethau eraill i ymladd yr etholiad nesaf, a'r rhai sydd heb eu mabwysiadu hyd yn hyn ... Yn naturiol, byddai'n well gennym rywun sydd heb gysylltu [*sic*] ei hunan ag unrhyw etholaeth arall fel na fedrai neb ddweud mai ymladd yr is-etholiad yn unig a wna.

# Gweithgareddau llenyddol Islwyn, 1956-62

*Yn Ôl i Leifior* (1956)

*Wythnos yng Nghymru Fydd* (1957)

Colofn wythnosol yn *Y Cymro* o fis Ebrill 1958

*Blas y Cynfyd* (1958)

*Tabyrddau'r Babongo* (1961)

# Gweithgareddau llenyddol Islwyn, 1956-62

Cychwyn trioleg o nofelau ar hanes ei dylwyth rhwng Diwygiad 1859 a'r Ail Ryfel Byd

Cynllun am nofel rhwng 150,000 o eiriau ar yr unfed ganrif ar ddeg – rhan o gynllun ehangach i sgrifennu dwsin o nofelau hanes

Rhan o'r ddau ddwsin a sefydlodd yr Academi Gymreig (1959)

Cyflwyno'r rhaglen radio 'Llafar' (1961)

# Gweithgareddau gwleidyddol Islwyn, 1956-62

Dyddiadur yn *Y Ddraig Goch* bob mis trwy ail hanner 1956 a hanner cyntaf 1957

*Wythnos yng Nghymru Fydd* (1957) – a rhoi'r elw i Blaid Cymru

Aelod o Bwyllgor Gwaith Plaid Cymru yn 1957

Apêl dan ei enw ei hun i godi arian i'r Blaid yn Ionawr 1961 – 700 o lythyrau personol at aelodau unigol

# Islwyn yn *Y Ddraig Goch*, Ebrill 1962

Ystyriwch y pethau sy’n rhaid eu gwneud er mwyn troi Cymru’n genedlaetholgar ac er mwyn troi Plaid Cymru fechan yn Blaid Cymru fawr. Rhaid pwyllgora, rhaid annerch cyfarfodydd, rhaid dadlau beunydd â chymdogion, cydnabod, cydweithwyr, rhaid casglu arian, rhaid gwerthu llenyddiaeth, rhaid ysgrifennu i’r wasg – rhaid bod yn achos cynnwrf a therfysg, bellach, a herio cyfraith estron. Mae’n rhaid gwneud y rhain i gyd.

# Islwyn yn *Y Ddraig Goch*, Ebrill 1962

Nid wyf yn hoffi pwyllgora, ’rwy’n mynd i gasáu dadlau’n fwy bob dydd, ni ellais erioed ofyn am arian wyneb yn wyneb na gwerthu dim byd. Bu adeg pan gawn ryw gymaint o gic o sgrifennu i’r wasg ar bwnc dadleuol; erbyn hyn ’rwy’n teimlo’n gecryn a chranc bob tro y rhof gynnig arni.

Oherwydd hyn yr wyf yn ysgrifennu. Dihangfa ydyw rhag y frwydr, y gorchwyl caredicaf wrth fy nerfau … Nid oes dim mwy na hynny o ogoniant yn y peth.

# Islwyn yn *Y Ddraig Goch*, Ebrill 1962

D. J. Williams sy’n iawn, wrth gwrs. Hyd yn oed a bod dyn wedi’i eni’n llenor ac mai llenydda yw ei orfoledd, nid oes ganddo mo'r hawl i'w fwynhau ei hun yn llenydda tra fo’i gyfrwng a’i gynulleidfa – sef ei iaith a’i genedl – yn diflannu . . .

# Islwyn yn *Y Ddraig Goch*, Ebrill 1962

D. J. sy'n iawn: Ef yw'r patrwm: y llenor a ymwadodd ag ef ei hun, sef â'i bleser mewn trin geiriau, er mwyn ei genedl yn ei gwewyr. Fe wyddom am ei ddycnwch di-ben-draw yn argyhoeddi'i gyd-drigolion mewn anerchiad ac ymgom, yn rhannu ac yn gwerthu llenyddiaeth, yn casglu symiau mawrion o arian at Gronfa Gŵyl Ddewi, ac yn gwneud pob math o orchwylion gwleidyddol y byddai'n rhy isel gan eraill ohonom yn ein balchder ymhél â hwy. Hyn oll er mwyn ei wlad …

# Islwyn yn *Y Ddraig Goch*, Ebrill 1962

Mae un peth yn sicir. Ni ellir cymysgu gwleidyddda a llenydda. Fe all llenor deimlo i'r byw o blaid rhyddid i'w genedl a'i bregethu o dro i dro, ond ni all sgrifennu nofel neu ddrama ar nos Lun a nos Fercher a nos Wener a gwneud gwaith gwleidyddol ar nos Fawrth a nos Iau a nos Sadwrn.

. . . efallai fod Rhagluniaeth yn darparu fod rhai'n rhy groendenau i wleidydda ac yn rhy wan i ddioddef er mwyn iddynt droi'u gwewyr yn gyfrolau a thrwy hynny, efallai, roi rhywbeth ym mol gwag a phen gwacach eu cenedl.

# *Y Ddraig Goch*, Mai 1962

IS-ETHOLIAD MALDWYN –

ISLWYN FFOWC ELIS –

YMGEISYDD Y BLAID

# *Y Ddraig Goch*, Mai 1962

Ni ellir meddwl am neb sy'n annhebycach nag ef i'r gwleidydd proffesiynol, ond yn hynny y mae ei gryfder, oblegid gwleidyddiaeth broffesiynol sy'n lladd Cymru.

# Gwynfor Evans at Emrys Roberts, papurau Plaid Cymru C143

Rhaid i bawb sylweddoli *mor* bwysig y mae'r [*sic*]etholiad. Pe caem ddigon o gefnogaeth i beri bod y Rhyddfrydwyr yn colli'r sedd, deuai cenedlaetholdeb Cymreig yn enwog fel grym gwleidyddol trwy Brydain, a gallai roi pen ar yr adfywiad Rhyddfrydol.

# *Y Cymro*, 10 Mai 1962

Nid oes amheuaeth nad yw Islwyn Ffowc Elis yn ddyn o ddifri ac mae'n siŵr o gael ei ddefaid i gyd i'r gorlan. Efallai ei fod ormod o ddifri ac yn trethu cryn dipyn arno ei hun yn y modd y mae'n derbyn ei gyfrifoldeb ym maes diwylliant, gwleidyddiaeth a chrefydd yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd.

# Cyfarfodydd cyhoeddus

2.5 Betws Cedewain, Adfa, Manafon, Castell Caereinion

3.5 Llangurig, Trefeglwys, Caersws

4.5 Ffordun, Yr Ystog, Trefaldwyn, Sarn

5.5 Cwmllinau, Llanwrin, Ceinws, Machynlleth

# Cyfarfodydd cyhoeddus

7.5 Llangynog, Penybontfawr, Llanwddyn, Llanfihangel yng Ngwynfa

8.5 Cemmaes, Comins Coch, Llanbryn-mair, Carno

9.5 Derwen-las, Penegoes, Aberhosan, Uwchygarreg, Abercegir

10.5 Cegidfa, Pontrobert, Dolanog, Llangadfan

# Cyfarfodydd cyhoeddus

11.5 Llandyssil, Aber-miwl, Ceri, Y Drenewydd

12.5 Middletown, Trewern, Y Trallwng, Aberriw

14.5 Llanidloes, Machynlleth, Llanbryn-mair, Llanfair Caereinion, Llanfyllin

# Islwyn, *Y Faner*, 10 Mai 1962

Y mae ar bob cenedl ddyletswydd i ddynoliaeth na all hi mo'i chyflawni heb iddi fyw ei bywyd ei hun ... dyletswydd cenedl yw ennill y rhyddid hwnnw na all hi fyw hebddo.

# Pamffledyn etholiad

Canolbarth Cymru yw Calon Cymru ac o dan lywodraeth Llundain yr afiechyd mawr yw CLEFYD Y GALON ... NID yw'r feddyginiaeth gan y 3 PLAID ARALL. HEN FFASIWN YW EU FFISIG.

# Anerchiad, 14 Mai 1962

Any Welsh-spirited person who votes Conservative, Liberal or Labour will be postponing the final reckoning … If you do not vote Plaid Cymru this time, you are sure to do so some time. So why not tomorrow? The future is ours anyway.

## Isetholiad Maldwyn, 15 Mai 1962

| Plaid | Ymgeisydd | Pleidlais | % | ±% |
|---|---|---|---|---|
| Rhydd | Emlyn Hooson | 13,181 | 51.3 | +9.2 |
| Ceid | Robert H. Dawson | 5,632 | 21.9 | -9.4 |
| Llafur | Tudor Davies | 5,299 | 20.6 | -6.0 |
| Plaid Cymru | Islwyn Ffowc Elis | 1,594 | 6.2 | Amh |
| | **Mwyafrif** | 7,549 | 29.4 | +18.6 |
| | **Nifer yn pleidleisio** | 25,706 | 85.1 | +1.3 |
| | **Etholwyr cofrestredig** | 30,202 | | |

# Islwyn, *Y Ddraig Goch*, Mehefin 1962

Fe droes y Blaid etholiad di-liw a di-destun yn etholiad Cymreig. Fe drowyd goleuni llachar ar broblemau Canolbarth Cymru. Fe wnaed Cymru'n destun siarad am y tro cyntaf er y Ddeddf Uno ... I'r etholaeth dra di-Gymraeg hon, yn nydd y dwymyn Ryddfrydol newydd, y mentrodd Plaid Cymru. A mentro oedd raid. Yr oedd yn hen bryd cydio Maldwyn wrth Gymru, a rhoi i'w phobol hynaws y cyfle i bleidleisio o'r diwedd fel Cymry dros Gymry.

# Harri Webb, *Welsh Nation*, Mehefin 1962

If there is one man who has taken the Welsh language seriously, by proclaiming his faith that it is possible to make a living as a writer in Welsh, and by staking his livelihood on the prospect of setting up as a full-time professional writer, then that man is Islwyn Ffowc Elis. Like all creative artists in whatever medium, he is, of course, a Nationalist and moreover, prominently identified with the work of Plaid Cymru.

# Harri Webb, *Welsh Nation*, Mehefin 1962

But if there is one man who could have been excused politics, who could have been told that with a clear conscience that he could stay home and write his books, that man is Islwyn Ffowc Elis. And yet it was this man who came forward to carry the standard of Wales in Powys, when no other could be found. He himself gains immeasurably in status by his action.

# Islwyn at D.J., 27 Mai 1962

Cymryd fy mherswadio i ymladd a wneuthum, ac un o'r rhesymau am hynny oedd eich esiampl chi. Yr oeddwn yn dweud y gwir yn fy llith yn y *Ddraig Goch*. Mae’n fy anesmwytho’n enbyd fy mod i’n llochesu yn fy stydi i ddiddori’r Cymry Cymraeg, a chithau’n gwario’ch dyddiau yn ceisio’u deffro. Ac ni chawn i ddim llonydd gan fy nghydwybod nes i minnau ymdaflu i'r frwydr. ’Rwy’n eitha’ balch a bodlon erbyn hyn imi wneud hynny. Er ’mod i’n dal i gredu na ellir cymysgu gwleidydda a llenydda, oherwydd pe bawn i’n ysgrifennu nofel yn syth yn awr mae’n debyg y byddai’n bur rhagfarnllyd tuag at rai dynion.